ATODLEN 2 Rheoliadau 5, 7, 16

## YR WYBODAETH Y MAE EI HANGEN MEWN PERTHYNAS Â PHERSONAU SY'N CEISIO RHEDEG NEU REOLI CANOLFAN BRESWYL I DEULUOEDD NEU WEITHIO MEWN UN

**1.** Prawf adnabod cadarnhaol.

**2.** Naill ai —

(a) os yw'r swydd yn dod o fewn adran 115(3) o Ddeddf yr Heddlu 1997(**1**), tystysgrif record droseddol fanwl wedi'i rhoi o dan adran 115 o'r Ddeddf honno; neu

(b) mewn unrhyw achos arall, tystysgrif record droseddol wedi'i rhoi o dan adran 113 o'r Ddeddf honno,

gan gynnwys yn y naill achos a'r llall, ganlyniad gwiriadau sydd wedi'u cynnal yn unol, yn ôl fel y digwydd, ag adran 113(3A) neu 115(6A) o'r Ddeddf honno.

**3.** Dau dystlythyr ysgrifenedig gan gynnwys tystlythyr oddi wrth y cyflogwr diwethaf, os oes un.

**4.** Pan fo person wedi bod yn gweithio gynt mewn swydd yr oedd ei dyletswyddau'n cynnwys gweithio gyda phlant neu oedolion hawdd eu niweidio, cadarnhad, i'r graddau y bo hynny'n rhesymol ymarferol, o'r rheswm y daeth y gyflogaeth neu'r swydd i ben.

**5.** Tystiolaeth ddogfennol o unrhyw gymhwyster perthnasol.

**6.** Hanes cyflogaeth llawn, ynghyd ag esboniad ysgrifenedig boddhaol o unrhyw fylchau mewn cyflogaeth.

**7.** Gwiriad heddlu, sef adroddiad a gynhyrchir gan neu ar ran prif swyddog heddlu o fewn ystyr Deddf yr Heddlu 1996 sy'n cofnodi, fel y maent adeg cynhyrchu'r adroddiad, yr holl dramgwyddau troseddol —

(a) yr oedd y person wedi'i euogfarnu ohonynt gan gynnwys euogfarnau sydd wedi'u disbyddu fewn ystyr Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974(**2**) ac y caniateir eu datgelu yn rhinwedd Gorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975(**3**); neu

(b) y mae'r person wedi'i rybuddio amdanynt ac wedi'u cyfaddef adeg cael y rhybudd.

(**1**) 1997 p.50. Mae swydd yn dod o fewn adran 115(3) os yw'n cynnwys gofalu yn rheolaidd am bersonau o dan 18 oed, eu hyfforddi, eu goruchwylio neu fod y daliwr â gofal drostynt ar ei ben ei hun.

(**2**) 1974 p.53

(**3**) O.S. 1975/1023. Mae diwygiadau perthnasol wedi'u gwneud gan O.S. 1986/1249, O.S. 1986/2268 ac O.S. 2001/1192.